Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ganolfan Addysg Y Bont

**Ffordd Cildwrn**
**Llangefni**
**LL77 7NG**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chanolfan Addysg Y Bont

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Canolfan Addysg Y Bont |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Arbennig |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 125 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 96 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Arbennig a Gynhelir yw 46.2%) | 45.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Arbennig a Gynhelir yw 99.8%) | 100.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Medi 2011 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 07/10/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 09/05/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn yr arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:

Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Canolfan Addysg Y Bont yn gymuned hapus, gynnes a chroesawgar lle mae disgyblion yn gwneud datblygiad sylweddol yn eu medrau personol a chymdeithasol dros amser. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer lles yn nodwedd gref iawn o waith yr ysgol ac mae hyn wedi arwain at lefel dda o bresenoldeb, agweddau cadarnhaol iawn at ddysgu ac ymddygiad ardderchog disgyblion.

Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu buddiol a phwrpasol ac mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf dros amser yn eu medrau llythrennedd, rhifedd, cymdeithasol, creadigol a chorfforol. Un o brif gryfderau'r ysgol yw'r cysondeb yn y ffordd y mae staff yn datblygu medrau cyfathrebu disgyblion. Mae arweinwyr wedi buddsoddi llawer iawn o adnoddau ac amser i sicrhau bod staff yn gymwys ac abl i sicrhau cyfathrebu clir ac effeithiol gyda'r disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meithrin medrau cyfathrebu llwyddiannus yn unol â'u gallu neu anhawster. Mae hyn yn nodwedd gref.

Mae'r staff yn gosod cryn bwyslais ar ddatblygu medrau byw'n annibynnol. Trefnir ymweliadau cyson i'r siopau lleol lle mae'r disgyblion yn mwynhau prynu bwydydd a nwyddau ar gyfer eu gwersi coginio a gwersi eraill. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau ac yn elwa'n fawr o weithgareddau yng nghaffi'r ysgol, sef 'Caffi'r Ddraig'.

Mae'r pennaeth, y llywodraethwyr a'r staff yn arddel diwylliant cryf o ddatblygiad proffesiynol parhaus er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r medrau angenrheidiol i ddiwallu anghenion arbenigol pob disgybl. Mae'r ffocws cadarn ar ddatblygiad proffesiynol staff wedi arwain at gryn gysondeb mewn arferion addysgu cryf, strategaethau i hyrwyddo ymddygiad da a pherthnasoedd gwaith cadarnhaol.

## Argymhellion

A1 Cryfhau'r gweithdrefnau hunanwerthuso drwy fesur effaith y gweithredoedd ar safonau disgyblion ac ansawdd yr addysgu

A2 Ehangu'r profiadau dysgu ymhellach drwy wneud defnydd pwrpasol o'r adnoddau allanol ac arbenigol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas ag effaith datblygiad proffesiynol ar ansawdd y ddarpariaeth.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae Canolfan Addysg y Bont yn darparu addysg arbenigol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol o oedran 3 i 19 oed. Mae gan y disgyblion ystod eang o anawsterau dysgu, datblygiadol neu gorfforol dwys. Oherwydd hyn, mae'r ysgol yn darparu pedwar llwybr cwricwlaidd gwahanol i fodloni anghenion yr holl ddisgyblion. Mae'r llwybrau hyn yn cynnwys cwricwlwm cyn-ffurfiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dwys a lluosog, cwricwlwm anffurfiol ar gyfer disgyblion ag anawsterau cyfathrebu sylweddol a chwricwlwm lled-ffurfiol neu ffurfiol ar gyfer disgyblion sy'n gynyddol fwy abl. Dros amser, mae bron pob un disgybl yn gwneud cynnydd nodedig o'i fan cychwyn ac mae hyn yn gryn gryfder.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud datblygiad cadarn yn eu medrau cyfathrebu yn ystod eu hamser yn yr ysgol ac mae hyn yn nodwedd gref. Maent yn defnyddio ystod amrywiol a phwrpasol o ddulliau cyfathrebu i ateb cwestiynau, i rannu gwybodaeth ac i fynegi eu barn. Er enghraifft, mae rhai disgyblion sy'n dilyn y llwybr cyn-ffurfiol yn yr uned gofal arbennig, sef 'Dwynwen', yn datblygu eu gallu i gyfathrebu eu dymuniadau a'u dewisiadau trwy anelu eu llygaid at sgrin. Mae eraill yn gwneud cynnydd sylweddol yn eu gallu i gyfathrebu bodlonrwydd a theimladau eraill trwy wenu a chwerthin. Mae llawer o ddisgyblion sy'n dilyn llwybrau anffurfiol a lled-ffurfiol yn gwneud datblygiad cadarn yn eu medrau cyfathrebu trwy ddefnyddio arwyddo i ailadrodd stori yn gywir a hyderus. Mae disgyblion sy'n defnyddio dulliau cyfathrebu cyfnewid lluniau yn datblygu hyder cynyddol a chadarn i fynegi eu dymuniadau, i wneud dewisiadau am weithgareddau yn y dosbarth ac i roi eu barn ar bynciau trafod. Mae'r disgyblion sydd â medrau cyfathrebu llafar datblygedig yn defnyddio eu medrau'n llwyddiannus wrth weithio a chwarae ac wrth gydweithio ag oedolion. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion hynaf yr ysgol yn cyd-drafod yn hyderus fanteision defnyddio mathau gwahanol o gludiant a'r anawsterau y gallent ddod ar eu traws wrth ddefnyddio cludiant cyhoeddus. Dros amser, mae pob un disgybl yn gwneud cynnydd arwyddocaol yn eu medrau cyfathrebu personol o'u mannau cychwynnol ac mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at eu boddhad a'u llwyddiant yn yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau cymdeithasol clodwiw a gwerthfawr wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Maent yn datblygu'n ddisgyblion annwyl a chyfeillgar sy'n cyfarch ei gilydd a'r oedolion o'u cwmpas yn gynnes. Mae disgyblion 'Y Bont' yn ffrindiau da, yn cyd-dynnu'n gadarnhaol ac yn parchu ei gilydd. Maent yn mwynhau eistedd gyda'i gilydd adeg amseroedd byrbryd ac amser cylch. Dangosa rai disgyblion ofal ac empathi naturiol tuag at eu ffrindiau, er enghraifft wrth estyn cadair iddynt eistedd ger y bwrdd neu wrth sicrhau bod ganddynt rywbeth i'w fwyta. Mae llawer o'r disgyblion yn hynod gyfeillgar gyda'r staff dysgu a chymorth ac maent yn arddangos agosatrwydd sylweddol atynt. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn groesawgar gydag ymwelwyr ac mae llawer yn barod iawn i sgwrsio neu gyfathrebu â nhw trwy amrywiol ddulliau.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau dysgu annibynnol gwerthfawr dros amser, yn ddibynnol ar eu hanawsterau. Maent yn gwybod pryd i ofyn am gymorth

ond maent hefyd yn ymdrechu i gwblhau tasgau'n annibynnol. Mae llawer yn deall arferion y dosbarth ac yn cydymffurfio â threfniadau dyddiol yn ddiffwdan. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn mynd at y sinc yn naturiol a digymell i olchi eu dwylo cyn sesiwn coginio. Mae'r disgyblion iau yn datblygu annibyniaeth fuddiol wrth gymryd archebion brecwast gan eu ffrindiau a'u paratoi yng nghaffi'r ysgol.

Yn eu gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n ofalus ar athrawon a staff cymorth ac yn ymateb yn briodol ac mewn amrywiol ffyrdd addas i gwestiynau a sylwadau. Maent yn gwrando ar gyfarwyddiadau'r staff ac, yn y rhan fwyaf o achosion, maent yn gwrando'n astud ar gyfraniadau eu cyfoedion. Er enghraifft, mae disgyblion sy'n dilyn y llwybr cwricwlwm lled-ffurfiol a ffurfiol yn gwrando'n dda ar syniadau ei gilydd, wrth wella eu hadeiladau blociau, wrth wneud cywaith creadigol am yr Eidal neu wrth drafod addurniadau cacen pen-blwydd.

Yn unol â'u gallu a'u dull cyfathrebu, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen cadarn. Maent yn mwynhau storïau synhwyraidd a storïau cymdeithasol ac yn ailadrodd y storïau hyn trwy amrywiol gyfryngau. Mae disgyblion yn llwyddiannus wrth ddarllen rhestr cynhwysion ar ffurf lluniau neu eiriau a chysylltu'r rhain yn gywir gyda'r nwyddau pan maent yn eu prynu o'r archfarchnad leol. Mae ychydig o ddisgyblion yn darllen ar goedd yn hyderus ac yn trafod yr hyn a ddarllenant gan ddefnyddio geirfa addas. Mae'r disgyblion hŷn sydd yn dilyn cyrsiau galwedigaethol yn darllen gwybodaeth fel manylion cludiant a gwybodaeth am drefi ar safleoedd gwe er mwyn cynllunio taith hamddenol dros y penwythnos.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau motor mawr a mân buddiol dros gyfnod. Gwnânt hyn drwy ddatblygu dulliau gwneud marciau a siapiau mewn tywod, reis a chlai cyn symud ymlaen i ddefnyddio ystod o adnoddau ysgrifennu megis brwshys paent, pensiliau a glud. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu i fod yn fedrus wrth ddefnyddio offer bwyta, wrth frwsio eu dannedd ac wrth wisgo a dadwisgo dillad ffansi a rhoi eu cotiau i fynd allan i chwarae. Maent yn gwneud datblygiad da mewn medrau corfforol wrth i ddisgyblion weithio yng ngardd yr ysgol ac ar y rhandir cymunedol. Yn ystod sesiynau ymarfer corff, mae disgyblion yn datblygu medrau motor mawr gwerthfawr wrth symud trwy gylched synhwyraidd.

Mae disgyblion sy'n dilyn y llwybr ffurfiol a lled-ffurfiol yn gwneud datblygiad rhesymol yn eu medrau ysgrifennu dros amser. Mae'r disgyblion hŷn yn llwyddo i gyflwyno gwybodaeth ysgrifenedig ar ffurf cyflwyniadau pŵer bwynt am fanteision amrywiol weithgareddau chwaraeon wrth astudio'r cwrs byw'n iach.

Mae disgyblion yn datblygu medrau rhifedd yn briodol yn unol â'u gallu. Maent yn elwa'n fawr o'r cyfleoedd i ymarfer eu medrau cyfrifo wrth ymweld â chaffi'r ysgol, ac wrth siopa yn nhref Llangefni. Drwyddi draw, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau digidol yn briodol trwy ystod addas o brofiadau dysgu. Gall y mwyafrif ddefnyddio apiau addas i greu lluniau ac i chwarae gemau llythrennedd neu rifedd. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn datblygu uwch fedrau digidol buddiol megis creu animeiddiadau.

Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn elwa o gyfleoedd i ddatblygu eu creadigrwydd mewn sesiynau chwarae gyda mwd neu dywod ac yn eu gwersi celf. Er enghraifft, mae rhai yn gwneud gwaith celf hardd ar gerrig i ddynodi gweithredoedd o

garedigrwydd tra mae eraill yn creu darnau apelgar o gelf gan ddefnyddio brigau, paent a glaswellt i gynrychioli stori synhwyraidd. Mewn gwersi cerdd, mae disgyblion yn datblygu hyder a boddhad sylweddol wrth ddefnyddio offerynnau amrywiol fel drymiau a bongos. Maent yn gwrando ar, ac efelychu, rhythmau yn gywir ac mae hyn yn arwain at berfformiadau o safon uchel.

Mae disgyblion uwchradd ac ôl-16 sy'n dilyn y llwybr ffurfiol yn astudio ystod eang o gyrsiau galwedigaethol sy'n arwain at ennill cymwysterau pwysig iddynt. Mae'r rhain yn cynnwys cyrsiau lefel mynediad a chyrsiau medrau byw'n annibynnol. Mae pob disgybl yn trosglwyddo i gyrsiau coleg pellach naill ai ar ddiwedd Blwyddyn 11 neu ar ôl cyfnod yn y chweched dosbarth. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn gwneud cynnydd arwyddocaol dros amser ac yn trosglwyddo i ysgolion prif lif yn rhan amser neu'n amser llawn. Mae hyn yn nodwedd arbennig.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae lles disgyblion yn ffynnu o fewn amgylchedd gofalgar 'Y Bont'. O ganlyniad, maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hapus a bodlon i fod yn rhan ohoni. Maent yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn amlwg yn elwa o gael cwmni a chyfeillgarwch eu cyd-ddisgyblion. Mae ymddygiad y disgyblion yn rhagorol ac mae hyn yn adlewyrchu ansawdd y berthynas agos sydd rhwng y staff a'r disgyblion a'r disgwyliadau uchel sy'n cael eu gosod ganddynt. Mae yma ymdeimlad cryf o ymddiriedaeth disgyblion yn y staff a'u gofal ohonynt.

Mae bron pob disgybl yn ystyriol a gofalgar o eraill. Maent yn trin ei gilydd, staff ac ymwelwyr â pharch. Maent yn gwrtais ac yn awyddus i siarad a rhannu eu brwdfrydedd am eu dysgu a'u balchder o'u hysgol.

Wrth iddynt  symud drwy'r ysgol, mae llawer o'r disgyblion yn datblygu medrau gwerthfawr i fynegi eu teimladau a rheoli eu hemosiynau. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud defnydd da o dechnegau cyfathrebu ac adnoddau cefnogol cyfarwydd er mwyn eu helpu i deimlo'n ddiogel a chyffyrddus. Maent yn deall eu bod yn gallu mynd at ardaloedd tawel o'u dewis, neu ddefnyddio adnoddau cysur fel yr hamog, hyd nes eu bod yn teimlo'n barod i ddychwelyd i'r dosbarth.

Mae gan lawer o ddisgyblion agwedd bositif tuag at ddysgu ac maent yn dyfalbarhau'n dda mewn tasgau. Maent yn gwrando'n dda ac yn dilyn cyfarwyddiadau. Mae'r rhan fwyaf yn setlo'n gyflym i'w gwaith ac yn symud o un gweithgaredd i'r llall ac o un ardal o'r ysgol i'r llall yn ddiffwdan. Mae hyn yn adlewyrchu eu dealltwriaeth o arferion a threfniadau'r ysgol. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i gyfarwyddiadau staff, fel mynd ati'n syth i dacluso rhwng sesiynau a chynorthwyo staff i baratoi ar gyfer y weithgaredd nesaf.

Gydag amser, mae llawer o ddisgyblion yn dysgu gweithio'n dda mewn parau a thimau bach ac maent wrth eu boddau yn gweithio gyda'i gilydd. Er enghraifft, yn yr ardd, mae'r disgyblion yn rhannu tasgau  llenwi potiau gyda chompost a dyfrio'r tatws sydd newydd eu plannu.

Ar y cyfan, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o fwyta'n iach a ffyrdd iachus o fyw. Maent yn deall pwysigrwydd deiet iach ac ymarfer corff. Mae gan

ychydig o ddisgyblion hŷn ddealltwriaeth dda o pam nad yw ysmygu na defnyddio teclyn ‘vape’ yn iach.

Mae bron pob disgybl yn datblygu eu medrau corfforol yn dda. Mae nifer yn mwynhau hyfforddiant yn yr ysgol i wella medrau rygbi, pêl-droed a gemau tîm eraill. Fodd bynnag, nid yw disgyblion ag anawsterau corfforol yn elwa o sesiynau therapi dŵr ar hyn o bryd oherwydd bod y pwll hydro wedi cau.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth gynyddol o'u cyfrifoldebau fel dinasyddion cyfrifol. Gwnânt gyfraniad gwerthfawr i'r gymuned leol trwy eu gwaith gwirfoddol. Mae hyn yn eu galluogi i gyfarfod â phobl newydd a phrofi cyfleoedd newydd tu allan i'r ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn cefnogi nifer o brosiectau cymunedol pwysig gan gynnwys gwaith mewn rhandir a reolir gan elusen leol. Yn ogystal, maent yn helpu i wella poblogaeth y wiwer goch ac yn rhoi cymorth i gynnal twyni tywod lleol.

Mae'r disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o faterion amgylcheddol trwy amrywiaeth o gyfleoedd diddorol a gwaith cydweithredol gydag eraill. Er enghraifft, mae eu gwaith gyda phrosiectau Cymru Ddi-blastig a Cadw Cymru'n Daclus yn cefnogi dealltwriaeth disgyblion o sut mae llygredd yn effeithio ar yr aer, y môr a'r dyfrffyrdd.

Mae’r cyngor ysgol a'r cyngor lles yn cydweithio'n effeithiol i gasglu barn disgyblion am sut i wneud gwelliannau yn yr ysgol. Mae aelodau’r fforymau hyn yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri, yn cadw cofnodion o gyfarfodydd ac yn falch bod yr ysgol yn gwrando arnynt. Er enghraifft, mae staff yn gwrando ar, a gweithredu ar, eu hawgrymiadau am weithgareddau lles ‘Gwener Gwych’.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Ar draws yr ysgol, mae athrawon, cymorthyddion dysgu a staff eraill yn meithrin perthynas agos, gynhaliol a gofalgar â’u disgyblion. O ganlyniad, ceir ymdeimlad hyfryd o gydberthynas a chyd-ddyheu rhwng y disgyblion a’r staff ar draws yr ysgol gyfan. Mae gan athrawon a chymorthyddion adnabyddiaeth dda iawn o gryfderau ac anghenion eu disgyblion ac maent yn angerddol dros sicrhau eu bod yn ymateb yn bwrpasol i’r rhain. Rhoddir pwyslais amlwg ar greu a chynnal awyrgylch dosbarth tawel, digyffro ac anogol. Er enghraifft, maent yn chwarae cerddoriaeth lesol ac yn defnyddio’r bwrdd gwyn rhyngweithiol i arddangos delweddau sy’n ysbrydoli meddylgarwch a chaniatáu awyrgylch dosbarth ymlaciol.

Mae gan bob athro ddisgwyliadau uchel iawn o’u disgyblion. Mae hyn yn cynnwys disgwyliadau pellgyrhaeddol o’r hyn y gallent ei gyflawni, o’u hymddygiad a’u hymgysylltiad. Oherwydd eu hadnabyddiaeth gref o'r disgyblion, maent yn deall yn dda beth all greu anhawster neu ofid iddynt ac maent yn cynllunio’n rhagweithiol i osgoi problemau posibl. Mae athrawon a staff cymorth yn dathlu llwyddiannau disgyblion yn gyson.

Drwyddi draw, mae’r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio amrywiaeth bwrpasol o weithgareddau a phrofiadau dysgu addas. Mae’r rhain yn bodloni anghenion datblygiad eu disgyblion ac ar yr un pryd yn ymateb i’w ddiddordebau a’u

dymuniadau. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae athrawon yn cynllunio’n ofalus i sicrhau bod disgyblion yn mwynhau’r gweithgareddau ac yn gwneud cynnydd yn eu medrau cymdeithasol a phersonol. Ceir amrywiaeth briodol o weithgareddau unigol a grŵp ynghyd â chyfleoedd buddiol i ddisgyblion gydweithio â staff cymorth a hefyd weithio’n annibynnol. Er enghraifft, trefnir sesiynau plannu tatws a moron yn yr ardd, sesiynau coginio, ymweliadau wythnosol i’r archfarchnad a sesiynau chwarae sensori. Gan amlaf, mae athrawon yn paratoi ac yn gwneud defnydd o adnoddau lliwgar, pwrpasol o safon uchel i ennyn ymgysylltiad y disgyblion ac i gynorthwyo’r dysgu. Er hyn, nid oes digon o gysondeb yn nefnydd athrawon o ardaloedd allanol ac ystafelloedd arbenigol yr ysgol, fel y fflat byw’n annibynnol, i gyfoethogi’r profiadau dysgu ymhellach.

Yn gyffredinol, mae athrawon yn defnyddio amryw gyfryngau cyfathrebu i sicrhau bod eu disgyblion yn deall yr hyn a gyflwynant. Maent yn defnyddio holi yn gelfydd i sicrhau ymgysylltiad a chyfranogiad pob un disgybl yn eu dosbarth. Yn aml, mae’r cwestiynau unigol yn herio’r disgyblion i feddwl yn ddyfnach ac i ddatrys problemau. Mae athrawon a staff cymorth yn asesu cynnydd disgyblion yn erbyn eu targedau yn aml ac mae’r asesiadau parhaus hyn yn rhan greiddiol o’u gwaith. Elfen nodedig o hyn yw bod athrawon yn ailymweld ag elfennau o’r asesiadau yn gyson i wirio os yw disgyblion yn llwyddo i gynnal y safonau neu'r medr dros amser.

Mae’r rhan fwyaf o gymorthyddion cefnogi dysgu yn darparu gwasanaeth ardderchog. Maent yn angerddol am eu gwaith ac yn ymfalchïo yn eu cyfraniad at waith yr ysgol. Maent yn abl iawn wrth arwain sesiynau dysgu ac wrth weithio gyda grwpiau bach ac unigolion. Mae’r rhan fwyaf ohonynt wedi cymhwyso’n briodol i ddatblygu medrau cyfathrebu disgyblion ac i reoli eu hymddygiad a’u hymgysylltiad mewn modd rhagweithiol a chadarnhaol. Mae hyn yn nodwedd gref.

Mae’r ysgol yn darparu cwricwlwm eang, cytbwys a diddorol sydd wedi ei deilwra’n ofalus i ddiwallu gofynion ac anghenion pob disgybl ar draws yr ystod oedran. Mae arweinwyr wedi cynnwys cyfraniadau gwerthfawr gan athrawon, disgyblion a rhieni wrth gynllunio ei chwricwlwm. Mae disgyblion yn dilyn un o bedwar llwybr dysgu pwrpasol o fewn yr ysgol. Mae’r strategaeth hon yn sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad at weithgareddau buddiol sy’n adlewyrchu diddordebau ac anghenion unigol disgyblion ac yn eu hysgogi i wneud cynnydd cadarn yn eu dysgu.

Mae’r ysgol yn cynllunio ei chwricwlwm, sef ‘Cwricwlwm Y Bont’, yn ofalus ac yn unol ag anghenion unigol disgyblion yr ysgol. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer y maes dysgu a phrofiad iechyd a lles yn gryfder arbennig. Defnyddia athrawon ddulliau addas a phersonol i ymdrin â materion sensitif fel diogelwch personol, hylendid a pherthnasoedd iach.

Mae cydlynwyr y medrau yn adnabod cyfleoedd addas i ddisgyblion gymhwyso eu medrau’n effeithiol ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae’r ysgol yn darparu ystod eang ac amrywiol o brofiadau dysgu gwerthfawr sy’n canolbwyntio ar ddatblygiad personol a medrau cyfathrebu, llythrennedd, rhifedd, digidol a galwedigaethol disgyblion. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ymarfer y medrau hyn o fewn cyd-destunau bywyd go iawn yn yr ysgol ac yn y gymuned. Er enghraifft, mae disgyblion yn ysgrifennu rhestr i fynd i siopa, yn defnyddio cerdyn debyd i dalu ac yna’n coginio’r bwyd ar ôl dychwelyd i’r ysgol. Mae disgyblion yn datblygu eu

hannibyniaeth a'u dycnwch o fewn y gweithgareddau hyn, sy'n eu paratoi'n llwyddiannus ar gyfer cam nesaf eu bywydau.

Mae'r ysgol yn darparu arlwy pwrpasol o gyrsiau i ddisgyblion hŷn sy'n cynnwys medrau gwaith, celf a'r celfyddydau mynegiannol. Rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion weithio tuag at wobr Dug Caeredin. Cyfoethogir yr opsiynau ymhellach drwy gyrsiau a ddarperir gan y coleg addysg bellach lleol, er enghraifft coginio a chwrs medrau byw'n annibynnol. Mae hyn oll yn paratoi disgyblion yn effeithiol tuag at gam nesaf eu bywyd. Yn ogystal, mae'r ysgol yn gwahodd colegau lleol a chynrychiolwyr o fyd gwaith ac elusennau i ffair gyrfaoedd flynyddol. Mae'r disgyblion a'u rhieni yn elwa o'r cyfle i drafod camau posibl nesaf eu plant.

Cyfoethogir profiadau dysgu'r disgyblion trwy arlwy eang o brofiadau allgyrsiol a chydweithio gyda phartneriaid megis Môn Actif ac Undeb Rygbi Cymru. Er enghraifft, trefnir gweithgareddau chwaraeon fel gymnasteg, athletau, rygbi a phêl- droed. Yn ogystal, ceir perfformiadau ysgol a threfnir teithiau diwylliannol fel ymweliad i arddangosfa'r Beatles yn Lerpwl.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r Bont yn gymuned hapus, ofalgar, weithgar a diogel sy'n darparu cefnogaeth sylweddol i'w disgyblion a'u teuluoedd. Mae'r staff yn gweithio'n ddiwyd i greu amgylchedd tawel a threfnus sy'n cyfranogi'n fawr at les a datblygiad personol disgyblion. Maent yn gweithredu strategaethau rheoli ymddygiad rhagweithiol yn gyson ac yn llwyddiannus ar draws yr ysgol ac mae hyn yn arwain at safonau ymddygiad da iawn.

Rhoddir cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddylanwadu ar fywyd yr ysgol drwy fod yn aelodau o'r cyngor ysgol, y grŵp lles neu'r eco gyngor. Mae staff yn gwrando ar farn y disgyblion hyn ac yn ymateb yn briodol iddynt, er enghraifft trwy ailsefydlu Caffi'r Ddraig yn unol â dymuniad y disgyblion. Mae aelodau'r grwpiau yn weithredol o gwmpas yr ysgol a'r gymuned leol, er enghraifft wrth gasglu sbwriel neu gymryd rhan yn orymdaith Gŵyl Ddewi Amlwch a Llangefni.

Mae'r staff yn sicrhau bod cynlluniau datblygu unigol disgyblion yn gynhwysfawr a thrwyadl. Maent yn cynnwys targedau manwl a phwrpasol yn ogystal â chamau synhwyrol a defnyddiol i hybu eu dysgu a'u lles. Mae'r cynlluniau hyn hefyd yn cynnwys cyfraniad gan y disgyblion a'u teuluoedd er mwyn creu darlun cyfan o'r unigolyn a'r ffordd orau i'w cefnogi. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allanol fel y gwasanaethau cymdeithasol, staff ffisiotherapi a therapyddion iaith a lleferydd er mwyn cefnogi datblygiad disgyblion. Mae ymweliadau rheolaidd yr arbenigwyr hyn â'r ysgol a'u mewnbwn i'r cynlluniau yn sicrhau bod gan yr ysgol wybodaeth ddefnyddiol a chyfredol ar gyfer cefnogi pob unigolyn yn bwrpasol. Mae staff yn defnyddio'r wybodaeth yn fedrus wrth gynllunio gweithgareddau i bob unigolyn. Mae'r cynlluniau'n cynnwys ystod ddefnyddiol o strategaethau sy'n ffocysu'n fanwl ar agweddau fel cyfathrebu, datblygiad sensori a medrau bywyd. Mae gan yr ysgol brosesau cadarn i olrhain cynnydd disgyblion yn erbyn eu targedau personol. Maent yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol iawn i fesur cynnydd, cynllunio camau nesaf ac i ddarparu cymorth ychwanegol pe bai angen.

O ganlyniad i ymrwymiad arweinwyr i hyfforddi'r gweithlu i'r safon uchaf bosibl, mae staff ar bob lefel yn darparu cymorth arbennig i gefnogi lles a datblygiad cymdeithasol disgyblion. Mae hyn yn cynnwys defnyddio arferion cyfathrebu cadarn a chyson sydd wedi galluogi'r ysgol i ddatblygu'n sefydliad cyfathrebu cyfeillgar llwyddiannus.

Mae'r staff yn paratoi amryw brofiadau buddiol i gefnogi'r disgyblion wrth iddynt drosglwyddo i'r cam nesaf yn eu dysgu. Mae'r ddealltwriaeth drylwyr a chyfredol sydd gan y staff am bob unigolyn yn eu galluogi i wybod pryd mae'n briodol i symud disgybl i ddosbarth arall neu i ennill profiad gyda darparwyr amgen. Er enghraifft, mae disgyblion o Flwyddyn 10 yn mynychu colegau lleol am gyfnodau yn ystod yr wythnos. Mae hyn yn datblygu eu medrau annibynnol yn dda, yn eu paratoi'n effeithiol ar gyfer y byd gwaith ac yn ehangu eu hymwybyddiaeth o'r opsiynau sydd ar gael iddynt yn y dyfodol. O ganlyniad, mae disgyblion yn siarad yn hynod wybodus a chyffrous am y dyfodol a'u dyheadau.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn unol â'u hanghenion a'u gallu fel rhan o'u sesiynau dysgu ac mewn dathliadau torfol. Er enghraifft, yn ystod cyfnodau 'Gwener Gwych', mae'r staff yn hybu ymwybyddiaeth disgyblion o gredoau a diwylliannau gwahanol, ac o faterion pwysig fel Diwrnod Syndrom Down, y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a dathliadau Cristnogol. Mae'r disgyblion yn elwa'n  fawr o ystod eang o deithiau allgyrsiol sy'n cynnig profiadau newydd a difyr iddynt ac sy'n datblygu eu medrau annibynnol yn dda.

Mae'r ysgol yn arddel diwylliant cryf o ddiogelu lle mae lles a hapusrwydd plant yn cael blaenoriaeth amlwg. Mae staff yn deall eu cyfrifoldeb i gadw disgyblion yn ddiogel ac mae gweithdrefnau amddiffyn plant yn gadarn ac yn ddealladwy gan bawb. Sicrheir fod staff yn derbyn hyfforddiant diogelu yn rheolaidd gan gynnwys arweiniad clir ar sut i ymateb yn briodol ac amserol i unrhyw bryder. Mae gan yr ysgol ymwybyddiaeth dda o'r hyn sy'n effeithio ar bresenoldeb disgyblion. Mae staff yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allanol er mwyn cefnogi teuluoedd ac i hybu pwysigrwydd presenoldeb. O ganlyniad, mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn dda.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sydd wedi'i seilio ar sicrhau bod bob disgybl yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau allweddol o fewn amgylchedd gofalgar a chynhwysol Y Bont. Rhoddir blaenoriaeth gadarn i sicrhau bod y disgyblion yn cael profiadau gwerthfawr i ddatblygu eu medrau bywyd o fewn y gymuned leol. Mae gan yr ysgol amcanion strategol pwrpasol sy'n rhoi ffocws pendant ar fodloni anghenion bob disgybl. Mae gan staff ar bob lefel wybodaeth gynhwysfawr am anghenion y disgyblion yn eu gofal. Maent yn olrhain cynnydd pob disgybl yn gyson gan ddefnyddio'r wybodaeth yn effeithiol iawn i gynllunio'r camau nesaf yn eu datblygiad.

Mae yna ymdeimlad cryf o gydweithio fel tîm ar draws yr ysgol ac mae'r staff yn angerddol am eu gwaith. Mae'r pennaeth wedi dosrannu cyfrifoldebau arwain yn synhwyrol. Mae'r penaethiaid cynorthwyol yn cefnogi'r pennaeth yn dda ac yn cydweithio'n bwrpasol i gryfhau ac adeiladu ar weledigaeth yr ysgol. Maent yn

cymryd rhan flaenllaw wrth arwain gwelliannau yn y ddarpariaeth a’r profiadau dysgu a gynigir i’r disgyblion. Er enghraifft, maent wedi arwain yn llwyddiannus wrth gyflwyno cwricwlwm ysgogol sy’n diwallu anghenion disgyblion trwy’r llwybrau dysgu amrywiol.

Mae ymrwymiad arweinwyr i ddatblygiad proffesiynol staff ar bob lefel, gan gynnwys cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau arwain, yn nodwedd gref. Mae athrawon yn rhannu eu gwybodaeth arbenigol yn gyson mewn cyfarfodydd dysgu proffesiynol ac mewn gweithdai cynllunio. Mae cymorthyddion yn cael cyfleoedd helaeth i ddatblygu’n broffesiynol, er enghraifft wrth gyflwyno rhaglenni ymyrraeth ac arwain ar strategaethau ysgol gyfan. Mae’r buddsoddiad mewn datblygiad proffesiynol traws ysgol wedi arwain at system hunangynhaliol effeithiol iawn.

Mae blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn cael rhan flaenllaw yng nghynllun gwella’r ysgol. Mae arweinwyr yn gosod ffocws clir ar ddatblygu medrau cyfathrebu pob disgybl gan gynnwys eu medrau Cymraeg. Mae’r arweinwyr yn rhoi ystyriaeth briodol i ymateb i effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol drwy sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfleoedd cyfartal.

Mae’r pennaeth a’r corff llywodraethol yn rheoli cyllideb yr ysgol yn effeithiol. Rhoddir blaenoriaeth gadarn i sicrhau bod lefelau staffio’r ysgol yn briodol er mwyn diwallu anghenion unigol y disgyblion a sicrhau'r adnoddau sydd eu hangen arnynt. Mae’r ysgol wedi wynebu cyfnod heriol iawn o ganlyniad i drafferthion gyda thô’r adeilad. Mae’r tîm arwain, gan gynnwys aelodau o’r corff llywodraethol, wedi gweithio’n ddidrugaredd i oresgyn yr her hon gan sicrhau'r effaith leiaf posibl i’r ddarpariaeth ac i les disgyblion.

Mae corff llywodraethol yn angerddol am yr ysgol ac yn gweithio’n ddiwyd i’w chefnogi. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau a meysydd gwella’r ysgol. Mae’r llywodraethwyr yn manteisio ar gyfleoedd cyson i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach drwy fonitro’r ddarpariaeth yn ystod amseroedd brecwast a chinio.

Fel rhan o’r broses sicrhau ansawdd, mae arweinwyr yn cynnal ystod o weithgareddau monitro pwrpasol, gan gynnwys craffu ar waith disgyblion, gwerthuso cynlluniau athrawon ac ymgymryd â theithiau dysgu. Mae aelodau penodol o’r corff llywodraethol yn cynnal cyfarfodydd buddiol â’r staff i drafod cynnydd y disgyblion yn erbyn eu targedau unigol a sut i wella’r ddarpariaeth ymhellach. Yn dilyn eu hymweliadau, maent yn bwydo eu canfyddiadau i weddill y corff llywodraethol, gan herio arweinwyr, fel y bo’n briodol. Mae trefniadau hunanwerthuso’r ysgol ar gyfer mesur effaith gweithgareddau ar safonau disgyblion ac ansawdd yr addysgu yn datblygu’n briodol. Fodd bynnag, nid yw’r deilliannau hyn yn cael eu defnyddio’n ddigon cyson wrth gynllunio ar gyfer gwelliant.

Mae’r staff ar bob lefel yn meithrin perthynas gynhyrchiol â theuluoedd a chymuned ehangach yr ysgol. Enghraifft nodedig yw’r gweithdai cyfathrebu cyson mae’r staff yn eu cynnal i rieni. Yn ystod y sesiynau hyn, maent yn rhannu eu harbenigedd gyda rhieni gan gyflwyno’r amryw ddulliau maent yn eu defnyddio i ddatblygu medrau cyfathrebu llafar ac arwyddo'r disgyblion. Drwy gysoni’r dulliau rhwng yr ysgol a’r cartref, mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar allu’r disgyblion i gyfathrebu heb deimlo’n rhwystredig. Mae rhieni’n cael cyfleoedd addas i ddylanwadu ar rai

agweddau o waith yr ysgol. Er enghraifft, bu iddynt gwblhau holiadur yn ddiweddar i gynnig syniadau am gynnwys cwricwlwm yr ysgol.

Mae’r ysgol yn cydweithio ag ystod eang o bartneriaid lleol ac ehangach i sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer dysgu a lles yn diwallu anghenion pob disgybl. Enghraifft dda o hyn yw’r cydweithio cyson â chanolfan ‘Gorwel’, lle rhoddir cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion hŷn yr ysgol ddatblygu eu medrau a phrofiadau bywyd go iawn. Mae’r ysgol yn gweithio’n gynhyrchiol gydag ysgolion arbennig eraill a chydag ymgynghorwyr allanol er mwyn darparu hyfforddiant ac arweiniad ac i rannu eu harferion da.

Mae ymrwymiad arweinwyr i ddatblygu arfer broffesiynol staff ar bob lefel yn nodwedd gref. Darperir ystod effeithiol ac arbenigol o gyfleoedd datlygiad proffesiynol i staff o fewn i’r ysgol a’r tu allan. Mae staff yn cael cyfleoedd gwerthfawr i arsylwi eu cyfoedion ac i rannu eu harbenigedd a’u gwybodaeth yn gyson . Mae’r ysgol yn gweithio’n gynhyrchiol gydag ysgolion arbennig eraill a chydag ymgynghorwyr allanol er mwyn datblygu arfer dda a chyd-gynllunio. Mae’r ddarpariaeth arbenigol yn yr ysgol wedi elwa o’r cydweithio hwn.

Rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau arwain y staff ar wahanol lefelau. Mae staff yn rhannu eu gwybodaeth arbenigol yn gyson mewn cyfarfodydd ac o fewn gweithdai cynllunio gyda thimau dysgu. O ganlyniad, mae’r dysgu proffesiynol yn cael effaith gadarnhaol ar safonau ac ar arferion staff, er enghraifft ar arferion ac egwyddorion ysgol gyfathrebu gyfeillgar /  hinsawdd gyfathrebu gyflawn a chynhwysol yr ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru).

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/07/2023